

# PARA♥EDIC2

## The Adrenaline Trial



Ariennir y prosiect hwn gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (rhif y prosiect 12/127/126). Mae'r safbwyntiau a fynegir ynddo yn perthyn i'r awduron ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau'r Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, y GIG na'r Adran Iechyd.



Mae **ATALIAD Y GALON** yn argyfwng sy'n peryglu bywyd. Mae'n digwydd pan fydd y galon yn rhoi'r gorau i guro yn sydyn. Mae'n wahanol i drawiad ar y galon, lle mae'r galon yn cael ei niweidio ond yn parhau i guro.

Pan fydd y galon yn rhoi'r gorau i guro nid yw'n gallu pwmpio gwaed i'r ymennydd, yr ysgyfaint nac i organau eraill. O fewn eiliadau i ataliad y galon, bydd person yn mynd yn anymwybodol ac ni fydd yn ymateb.



**30,000**

o bobl yn cael triniaeth ar gyfer ataliad y galon yn y gymuned bob blwyddyn yn y DU



Am bob munud sy'n mynd heibio heb gael triniaeth, mae'r siawns o oroesi'n gostwng 10%



Mae llai nag 1 ym mhob 10 claf (10%) yn goroesi ac yn gallu mynd adref o'r ysbyty yn dilyn ataliad y galon. Mae'r nifer hyd yn oed yn is ar gyfer cleifion pan fydd y triniaethau cyntaf yn methu.

Mewn arolwg cymunedol, roedd 95% o'r ymatebwyr yn credu bod goroesi yn y tymor hir gyda gweithrediad da yn yr ymennydd yn bwysicach na goroesi yn y tymor byr (oriau neu ddyddiau).



Pan na fydd y triniaethau cychwynnol yn gweithio, caiff adrenalin ei roi fel triniaeth weithiau. Mae adrenalin wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers dros 50 o flynyddoedd, ond nid yw wedi cael ei brofi'n iawn i weld p'un ai a yw'n fanteisiol ynteu'n niweidiol.


**PARAMEDIC2** yw'r astudiaeth gyntaf ar raddfa fawr i archwilio a yw adrenalin yn ddefnyddiol ynteu'n niweidiol fel triniaeth ar gyfer ataliad y galon.

# Poblogaeth yr astudiaeth



**8,016**

oedolion sy'n gleifion sydd wedi cael eu trin gan barafeddygon y GIG ar gyfer ataliad y galon i ffwrdd o'r ysbyty



**65%**  
**gwryw**



**6** allan o **10**

o bobl wedi cael CPR gan bobl sydd gerllaw neu aelodau o'r teulu cyn i'r ambiwlans gyrraedd

Oedran cyfartalog

**69**  
(blwyddyn)



**75%**

wedi cael ataliad ar y galon gartref



**1%**

wedi cael ataliad ar y galon yn y gweithle



**20%**

wedi cael ataliad ar y galon mewn lle cyhoeddus



**4%**

wedi cael ataliad ar y galon mewn lleoliad arall



Ar gyfartaledd, cafodd **5** dos o adrenalin ei roi

Ar y cyfan, cafodd

**41%**

eu cludo i'r ysbyty i gael rhagor o driniaeth



Ar y cyfan, fe oroesodd

**2.7%**

a'u rhyddhau o'r ysbyty

## Y canlyniadau

Gall adrenalin ailddechrau'r galon ond nid yw'n dda ar gyfer yr ymennydd

Gwelwyd gwelliant bychan yn nifer y rhai a oedd yn goroesi hyd at 30 diwrnod yn dilyn ataliad ar y galon mewn cleifion a oedd wedi cael adrenalin, o gymharu â'r rheini nad oedd wedi cael y driniaeth. (0.8% o wahaniaeth)

Nid oedd adrenalin yn gwneud unrhyw wahaniaeth i nifer y cleifion a oedd yn goroesi i fynd adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda...

...Fodd bynnag, roedd y cleifion a oedd wedi goroesi ac wedi cael adrenalin bron yn ddwywaith yn fwy tebygol o gael niwed difrifol i'r ymennydd yn dilyn ataliad y galon, gan olygu nad oedd y claf yn gallu cerdded na gofalu amdano ei hun, neu ei fod mewn coma. (31% yn erbyn 18%)

Mae'r diagram hwn yn dangos nifer y cleifion a wnaeth orosi a chael eu rhyddhau o'r ysbty, wedi'u gwmpio yn ôl difrifoldeb yr anabledd yn dilyn yr ataliad ar y galon\*

## Adrenalin (n = 126)



9.5%

### Dim anabledd

Dim symptomau o gwbl

### Dim anabledd sylweddol

Rhai symptomau ond yn gallu gwneud yr holl ddyletswyddau a'r gweithgareddau arferol



13.5%

### Anabledd bychan


Methu gwneud yr holl weithgareddau blaenorol, ond yn gallu edrych ar ôl ei faterion ei hun heb gymorth



18.3%

### Anabledd cymedrol

Angen rhywfaint o help, ond yn gallu cerdded heb gymorth



27.8%

### Anabledd eithaf difrifol


Methu cerdded heb gymorth na chymryd gofal o'i anghenion corfforol ei hun heb gymorth



9.5%


### Anabledd difrifol

Caeth i'r gwely, yn gwlychu ei hun ac yn gorfod cael sylw a gofal nyrsio cyson



21.4%


## Dim adrenalin (n = 90)



16.7%



11.1%



32.2%



22.2%



8.9%



8.9%

Cyfanswm 100%

Cyfanswm 100%

# Pa driniaethau yw'r rhai mwyaf effeithiol?

Mae'r llun hwn yn cymharu pa mor effeithiol yw adrenalin yn erbyn triniaethau eraill seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ataliad y galon.



Mae cydnabod ataliad y galon a ffonio am help yn gynnwys yn **10 YN FWY EFFEITHIOL**



Mae adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn **8 GWAITH YN FWY EFFEITHIOL**



Mae diffibrilio (sioc drydanol) yn **20 GWAITH YN FWY EFFEITHIOL**



Adrenalin

Dysgwch sut mae gwneud CPR

[www.life-saver.org.uk](http://www.life-saver.org.uk)

[www.bhf.org.uk/how-you-can-help/how-to-save-a-life/how-to-do-cpr](http://www.bhf.org.uk/how-you-can-help/how-to-save-a-life/how-to-do-cpr)

# A fydd adrenalin yn parhau i gael ei ddefnyddio?



Mae'r Cyngor Dadebru (DU) a'r Pwyllgor Cyswllt Rhyngwladol ar Ddadebru (ILCOR) wedi llunio canllawiau clinigol sy'n helpu parafeddygon i benderfynu sut mae trin cleifion.

Mae'r astudiaeth yn rhoi tystiolaeth bendant ar effaith adrenalin yng nghyswllt ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty. Bydd yn rhaid i'r sefydliadau hyn werthuso'r canlyniadau yng nghyd-destun yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac yng nghyd-destun gwerthoedd a dewisiadau'r cleifion a'r gymuned ehangach.

Dylai clinigwyr a'r cyhoedd barhau i flaenoriaethu triniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth - CPR o ansawdd uchel a diffibrilio cyn gynted â phosib.

Mae canlyniadau llawn y treial ar gael yn *New England Journal of Medicine* "A Randomised Trial of Epinephrine in Out-of-Hospital Cardiac Arrest"

[www.nejm.org](http://www.nejm.org)

Hoffwn ddiolch i'r parafeddygon, y tîm ymchwil, y tîm yn yr ysbyty, ein cleifion a'n partneriaid cyhoeddus am eu help a'u cefnogaeth drwy gydol y treial.

**Cysylltu â thîm y treial**

**E-bost:** [paramedictrial@warwick.ac.uk](mailto:paramedictrial@warwick.ac.uk)  
**Gwefan:** [www.warwick.ac.uk/paramedic2](http://www.warwick.ac.uk/paramedic2)  
**Ysgrifennwch atom yn:** PARAMEDIC2 Trial Office  
Warwick Clinical Trials Unit  
University of Warwick  
Gibbet Hill Road  
Coventry  
CV4 7AL

